# Asesiad o sefyllfa'r Gymraeg a'r tueddiadau demograffig yn ardal Dwyfor ar sail cyfrifiadau 2001 a 2011

*Nodiadau cychwynnol*
Paratowyd yr asesiad hwn gan Ymgynghoriaeth Iaith Hanfod, ar gais y Cynghorydd Aled Evans ac Iwan Edgar.

Dylai'r sylwadau sydd ynddo gael eu darllen ar y cyd â'r asesiad amgaeedig o sefyllfa'r Gymraeg yng Ngwynedd, sy'n bennaf seiliedig ar waith a oedd eisoes wedi'i wneud. Mae'n rhoi sylw llawn i Lŷn ac Eifionydd fel un o ardaloedd Gwynedd, ac nid oes ddiben atgynhyrchu'r graffiau yma.

Noder fodd bynnag y bydd mymryn o amrywiaeth yn y ffigurau yn yr asesiad hwn o gymharu â'r ddogfen gyffredinol. Nid yw'r ardal y cyfeirir at i fel Llŷn ac Eifionydd yn y ddogfen honno yn cynnwys ward Clynnog. Roedd rheswm da dros hynny, gan fod rhai wardiau wedi eu cyfuno ar gyfer rhai o'r ffigurau a ddefnyddiwyd; ymhlith y rhai a gyfunwyd â'i gilydd roedd Clynnog a Llanllyfni. Felly i ddibenion yr asesiadau hyn, Llŷn ac Eifionydd yw ardal Dwyfor heb gynnwys Clynnog. Gan fod y Cyngor yn cydnabod Dwyfor fel rhanbarth ac yn cyhoeddi ffigurau ar ei gyfer, defnyddir ffigurau ar gyfer Dwyfor yn y sylwadau hyn.

Nid yw ychwanegu Clynnog at ffigurau Llŷn ac Eifionydd yn gwneud fawr ddim gwahaniaeth i'r ganran sy'n siarad Cymraeg, ond gan fod nifer y siaradwyr Cymraeg wedi codi 140 yma, mae'n rhoi darlun mwy ffafriol o ran y cwymp cyffredinol yn y niferoedd yn Nwyfor.

Yn ogystal â'r ffigurau am y gallu i siarad Cymraeg, bwriedir edrych ychydig yn fanylach ar fewnfudo i ardal Dwyfor, a hefyd ar y berthynas rhwng y cynnydd yn nifer y cartrefi *(household spaces),* nifer yr aelwydydd, a'r cynnydd yn y boblogaeth.

## Cyflwyniad

Y peth cyntaf i'w nodi am y Gymraeg yn ardal Dwyfor yw fod yma ddarlun sy'n gadarnhaol iawn ar un ystyr, ond bod tueddiad cyffredinol o ddirywiad graddol yn achosi pryder.

Mae'r gyfran o 71.3% sy'n siarad Cymraeg yma gyda'r uchaf yng Nghymru; mae 94% o'r bobl a aned yng Nghymru yn siarad Cymraeg. Mae'n dda gweld cyfrannau uchel iawn o blant a phobl ifanc yn siarad Cymraeg; mae'r ganran o 92.5% o blant sy'n siarad Cymraeg yn rhywbeth i'w ddisgwyl mewn ardal o'r fath, ac mae'r ganran o 88.6% o bobl ifanc rhwng 16 a 24 oed sy'n siarad yr iaith gyda'r uchaf yng Nghymru.

Mae'n galonogol hefyd fod tua thri chwarter yr oedolion rhwng 25 a 49 oed yr ardal yn siarad Cymraeg. Y ffigur cyfatebol am y ganran sy'n siarad Cymraeg yn y grŵp oedran yma yw 67.5% yng Ngwynedd gyfan, 57% ym Môn, 46% yng Ngheredigion a 36% yn Sir Gaerfyrddin. Mae Dwyfor felly'n sefyll allan fel ardal eithriadol o Gymraeg.

Mae 70% o'r grŵp oedran yma yn ardal Dwyfor wedi eu geni yng Nghymru; ar y llaw arall, llai na 60% o bobl dros 50 oed sydd wedi eu geni yng Nghymru.

Mae'n golygu bod y ganran gyffredinol o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg i lawr i 71.3%. Mae'r cwymp o bron i 2 bwynt canran yn barhad tueddiad dros ddegawdau – gan fod dros 80% o'r trigolion yn siarad Cymraeg yn 1971.

Ar ben hyn, ni ddylid camarwain ein hunain yn ormodol mai pobl hŷn yn unig sy'n symud yma. Er bod llawer mwy o bobl hŷn o'r tu allan i Gymru'n symud i mewn, ni ddylid diystyru'r 30% o oedolion iau sydd wedi eu geni'r tu allan i Gymru ychwaith a'r potensial o ddylanwadu ar iaith y gymdeithas.

Mae'r gyfran gyffredinol o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn beryglus o agos i'r trothwy o 70%, sy'n cael ei grybwyll gan ystadegwyr fel yr isafswm canran sy'n angenrheidiol i'r Gymraeg barhau fel prif iaith y gymdeithas. [Mae'n wir bod y ganran hon yn cael ei chymryd yn rhy lythrennol gan rai sylwebwyr, gan fod amgylchiadau'n gallu amrywio rhwng ardal ac ardal. Ond dylid pwysleisio mai fel canllaw sy'n gosod isafswm y dylid ei defnyddio, nid er mwyn creu'r argraff bod unrhyw ardal lle mae dros 70% yn siarad Cymraeg yn gwbl ddiogel.]

Nid yw'r ganran sy'n siarad Cymraeg yn Nwyfor gyfuwch â'r hyn yw yn ardal Caernarfon a'r cyffiniau, ond fel y dengys y graffiau yn y ddogfen gyffredinol, mae'r canrannau o'r bobl a aned yng Nghymru sy'n siarad Cymraeg gyda'r uchaf yng Nghymru. Arwydd arall o gryfder yr iaith yma yw fod y ganran gyffredinol o'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg yn uwch na'r gyfran a aned yng Nghymru.

Tynnwyd sylw yn y ddogfen honno hefyd at ba mor gwbl allweddol yw Gwynedd i barhad y Gymraeg fel iaith sy'n cael ei siarad yn naturiol gan drwch y boblogaeth. Mae'r rhan helaethaf o ddigon o brif ardal graidd y gogledd-orllewin – o ran arwynebedd a phoblogaeth – yn gorwedd yng Ngwynedd, a honno'n cynnwys y rhan fwyaf o Arfon heblaw Bangor, Dwyfor a gogledd Meirionnydd.

Mae'r ffigurau'n dangos bod Dwyfor yn rhan o'r brif ardal graidd sydd o dan fygythiad. Nid oes ond angen y mymryn lleiaf o ddirywiad pellach i ddod â'r rhanbarth cyfan o dan y trothwy o 70% yn gallu siarad Cymraeg. Mae bod ag ardal eang lle mae 70% o boblogaeth o 25,000 yn siarad Cymraeg yn gaffaeliad holl bwysig i'r Gymraeg, ac mae'n cyfrif am tua chwarter o'r holl ardal graidd o safbwynt poblogaeth. I danlinellu ei phwysigrwydd, nid oes hyd yn oed bentref na phlwyf i'r de o Drawsfynydd gyda chyfran debyg o'i phoblogaeth yn siarad Cymraeg.

Byddai gweld y gyfran yn disgyn yn is na 70% yn ergyd ddifrifol i'r Gymraeg felly, ac yn cyfrannu at wahanu cadarnleoedd gogledd Meirionnydd oddi wrth gadarnleoedd Arfon.

Mae Dwyfor felly yn ardal o hynodrwydd ieithyddol – ond yn un lle mae'r hynodrwydd hwnnw yn fregus ac o dan fygythiad.

## Strategaeth iaith y Cyngor

Calonogol iawn oedd gweld Cyngor Gwynedd, yn ei strategaeth iaith a lansiwyd yn ddiweddar, yn gosod nod o gynnydd o bum pwynt canran yn y gyfran sy'n siarad Cymraeg erbyn 2021, a fyddai'n golygu codi'r ganran ar gyfer y sir gyfan i tua 70%.

Yr hyn sy'n rhaid ei nodi yma yw y byddai hynny'n amhosibl ei gyflawni heb sicrhau cynnydd cyfatebol yn ardal Dwyfor hefyd. Ni ellir fyth cael cynnydd digonol yn ardaloedd mwy Seisnig y sir i godi canran y sir gyfan. Rhaid cymryd felly mai'r nod yw codi'r ganran sy'n siarad Cymraeg yn ardal Dwyfor i 76.3% erbyn 2021.

Cymharol gyfyng yw gallu unrhyw bolisïau cynllunio i greu newid cadarnhaol yn sefyllfa'r Gymraeg; anodd a chymhleth fyddai penderfynu ar union natur y mathau o ddatblygu a fyddai'n helpu creu'r amodau a allai arwain at dwf. Ar y llaw arall, mae gan bolisi cynllunio'r grym i fod yn ddinistriol os ceir gormod o ddatblygu, ac nid oes ond rhaid edrych ar drefi Seisnig glan-môr arfordir y gogledd i ddangos effaith gor-ddatblygu o'r fath.

Yn ddelfrydol, yr hyn y byddid wedi dymuno'i weld fyddai bod y rhai a baratôdd strategaeth iaith y Cyngor wedi cael y cyfrifoldeb hefyd o awgrymu niferoedd y tai a fyddai'n fwyaf tebygol o hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob ardal. Gallai'r rhain wedyn fod wedi cael eu defnyddio fel man cychwyn wrth ffurfio'r Cynllun Datblygu Lleol, gan addasu yn ôl anghenion lleol.

Wrth ffurfio polisi cynllunio ar gyfer mannau mor amrywiol â siroedd trefol a Saesneg eu hiaith fel Casnewydd neu Torfaen ar y naill law, a rhai gwledig a Chymraeg fel Môn a Gwynedd ar y llall, mae'n amhosibl i unrhyw bolisi ar gyfer Cymru gyfan fod yn rhoi'r sylw dyladwy i brif gadarnle'r Gymraeg a'r sylw arbennig sydd angen ei roi i gynnal y niferoedd a'r canrannau yma.

## Effeithiau tebygol 1200 o dai ychwanegol yn Nwyfor

Y tueddiad hirdymor yn Nwyfor yw lleihad graddol yn y boblogaeth gynhenid Gymraeg a chynnydd ychydig yn fwy yn nifer y mewnfudwyr o'r tu allan i Gymru, a'r rheini at ei gilydd yn tueddu i fod yn bobl hŷn,

Gan gychwyn trwy grynhoi'n fras y prif ystadegau ar gyfer Dwyfor:
(Mae angen cofio'u bod ychydig yn wahanol i'r rhai am Lŷn ac Eifionydd yn y ddogfen arall, a chymhlethdod arall yw bod yr ystadegau sy'n ymwneud ag iaith yn unig wedi eu cyfyngu i'r boblogaeth dros 3 oed, sy'n egluro gwahaniaethau o fewn y ffigurau canlynol.)

**Tabl 1: Poblogaeth**

| | |
|---|---|
| Poblogaeth Dwyor yn 2011 | 27,725 o gymharu â 27,322 yn 2001 |
| Cynnydd ers 2001 | 403 (1.5%) |
| Nifer yn gallu siarad Cymraeg yn 2011 | 19,124, o gymharu â 19,361 yn 2001 |
| Canran yn gallu siarad Cymraeg yn 2011 | 71.3% o gymharu â 73.2% yn 2001 |

| | |
|---|---|
| Lleihad ers 2001 | 237 (1.9% o leihad yn y ganran) |
| Nifer o bobl a aned yng Nghymru, 2011 | 19,064 o gymharu â 19,209 yn 2001 |
| Canran a aned yng Nghymru, 2011 | 68.7% o gymharu â 70.3% yn 2001 |
| Lleihad ers 2001 | 145 (1.6% o leihad yn y ganran) |
| Nifer o bobl a aned y tu allan i Gymru, 2011 | 8,661, o gymharu â 8,113 yn 2001 |
| Canran y bobl a aned y tu allan i Gymru, 2011 | 31.2% o gymharu â 29.7% yn 2001 |
| Cynnydd ers 2001 | 548 (1.5% o gynnydd yn y ganran) |

Sylwer mai ffigurau am gynnydd mewn canrannau a geir uchod; mae'r cynnydd o 548 yn y bobl o'r tu allan i Gymru yn gynnydd o 6.7% mewn niferoedd o gymharu â'r hyn oedd yn 2001.

Dyma'r ffigurau am niferoedd a chyfansoddiad aelwydydd ac am niferoedd cartrefi *(household spaces)* yn 2011 a 2011:

**Tabl 2: Cyfansoddiad aelwydydd**

| | **2011** | **2001** | **Newid ers 2001** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm aelwydydd | 12,479 | 11,762 | 717 |
| Aelwydydd un person | 4551 | 3721 | 830 |
| Aelwydydd pensiynwyr yn unig | 3808 | 3743 | 65 |
| Cyfanswm cartrefi | 15,896 | 14,538 | 1,358 |
| Nifer unigolion i bob aelwyd | 2.22 | 2.32 | -0.1 |
| % o aelwydydd un person | 36.5 | 31.6 | +4.9 |
| % o aelwydydd pensiynwyr yn unig | 30.5 | 31.8 | -1.3 |

Ar yr olwg gyntaf, nid yw'r cynnydd o 1,200 yn nifer y tai newydd yn uchel o gymharu â'r cynnydd o 1,358 a fu rhwng 2001 a 2011. Ar y llaw arall, o weld mai 717 oedd y cynnydd yn nifer yr aelwydydd, mae'n awgrymu bod y gweddill naill ai'n ail gartrefi, neu yn dai ar y farchnad.

Sylwer hefyd fod y nifer cyfartalog o bobl ar bob aelwyd wedi gostwng o 2.32 i 2.22 yn 2011.

Ar sail poblogaeth o 27,000 yn fras, byddai hynny ynddo'i hun yn cyfateb i 525 o aelwydydd ychwanegol; mae'n rhesymol credu bod y gwahaniaeth rhwng hynny a'r 717 o aelwydydd ychwanegol yn cyfrif am y 403 o gynnydd mewn poblogaeth.

Mae'n rhesymol tybio ei bod yn gwneud mwy o synnwyr i ddefnyddio'r cynnydd yn nifer yr aelwydydd nag yn nifer y cartrefi fel sail cymhariaeth – mae'n annhebyg y byddai adeiladwyr yn mynd ati i godi tai heblaw fod pobl am eu prynu a'u defnyddio.

Os felly, mae'r 1,200 o dai newydd y bwriedir neilltuo tir ar eu cyfer yn sylweddol fwy na'r 717 o gynnydd yn nifer yr aelwydydd rhwng 2001 a 2011.

Fel y crybwyllwyd, mae'r 717 o gynnydd hwnnw mewn aelwydydd wedi arwain at 403 o gynnydd yn y boblogaeth, ond un rheswm pam fod y cynnydd hwnnw'n gymharol isel yw oherwydd gostyngiad yn nwysedd poblogaeth aelwydydd o 2.32 i 2.22. Ni ellir cymryd yn ganiataol fod yr un gyfradd o leihad yn y dwysedd am ddigwydd eto.

Ar ben hyn, gwelwn fod dwysedd poblogaeth Dwyfor eisoes yn is na'r 2.3 yw yng Nghymru gyfan. Mae'r gyfran o aelwydydd gorlawn – 3.8% - hefyd yn is na'r 4.7% yng Ngwynedd a 5.2% yng Nghymru gyfan.

Ffactor arall sy'n gallu cyfrif am gynnydd mewn aelwydydd yn cynnydd yn y niferoedd o aelwydydd un person (er nad yw hyn yn wir ym mhob achos, ee unigolion gweddw). Cafwyd cynnydd o 830 mewn aelwydydd o'r fath yn Nwyfor, ac maent bellach yn cyfrif am 36.5% o'r holl aelwydydd. Unwaith eto, ni ellir cymryd yn ganiataol y bydd yr un tueddiad yn parhau, oherwydd, mae'r cyfartaledd hwn yn uwch na'r 35.3% yw yng Ngwynedd ar gyfartaledd, ac yn sylweddol uwch na'r 30.8% yw yng Nghymru gyfan ar gyfartaledd.

Yn bwysicach na dim efallai, mae'r cyfanswm aelwydydd fel canran y cyfanswm tai yn neilltuol o isel yn Nwyfor. Mae'n cyfrif am 78.5% o gymharu â 85.9% yng Ngwynedd, a 94.0 yng Nghymru gyfan ar gyfartaledd. Mae'n awgrymu'n gryf fod potensial cryf am gynnydd poblogaeth o fewn y stoc bresennol o dai.

## Rhagamcanion posibl

Er mai rhagamcanion yw unrhyw ystadegau a wneir ar effeithiau ieithyddol datblygu, mae tystiolaeth o dueddiadau sydd eisoes ar waith yn ein galluogi i ddamcaniaethu ar sail o wybodaeth.

Fel y nodwyd uchod, y tueddiad yn Nwyfor yw lleihad yn y boblogaeth gynhenid a chynnydd yn y boblogaeth sy'n symud yma o'r tu allan i Gymru, a'r rheini yn tueddu i fod yn bobl hŷn. Mae'r rhagamcanion hyn yn seiliedig ar barhau'r tueddiadau presennol yn y boblogaeth gynhenid, a defnyddiwyd ffigur o 19,000 fel nifer y siaradwyr Cymraeg (lleihad o 124 o'r nifer presennol). Ni fernir bod lle i dybio y bydd unrhyw gynnydd naturiol yn nifer y siaradwyr Cymraeg, nac y bydd codi tai ynddo'i hun yn arwain at hynny.

**Rhagamcan 1**
Dim cynnydd o gwbl yn nifer y cartrefi na nifer yr aelwydydd.
Lleihad o 124 yn nifer y rhai sy'n siarad Cymraeg, a'r boblogaeth yn aros yr un fath:
Canran y siaradwyr Cymraeg i lawr i 70.8%

**Rhagamcan 2**
Dim cynnydd yn nifer y cartrefi, ond cynnydd o 1% yn y boblogaeth (ar dybiaeth y fod potensial i o leiaf hynny o fewn y stoc dai bresennol):
Canran y siaradwyr Cymraeg i lawr i 70.1%

**Rhagamcan 3**
Cynnydd o 1200 yn nifer yr aelwydydd, a hynny'n arwain at gynnydd o 672 yn y boblogaeth. (Defnyddiwyd ffactor o 0.56 o gynnydd mewn poblogaeth am ei fod yn cyfateb i'r ffordd yr arweiniodd 717 o gynnydd mewn aelwydydd at 403 o gynnydd mewn poblogaeth rhwng 2001 a 2011)
Canran y siaradwyr Cymraeg i lawr i 69.0%

**Rhagamcan 4**
Cyfuniad o scenario 2 a 3 – cynnydd yn nifer yr aelwydydd a chynnydd o 1% o fewn y stoc dai bresennol:
Canran y siaradwyr Cymraeg i lawr i 68.4%

**Rhagamcan 5**
Mae scenario 3 yn seiliedig ar barhau'r tueddiad o leihau dwysedd poblogaeth gyfartalog aelwydydd a chynnydd yn nifer aelwydydd un person. Pe na ddigwyddai hyn, y scenario waethaf bosibl fyddai cynnydd o 1200 yn nifer yr aelwydydd yn arwain at gynnydd o 2640 (1200 X 2.2) yn nifer y boblogaeth.
Os felly, byddai cyfran y siaradwyr Cymraeg i lawr i 64.5%.

Mae'n wir mae'r scenario waethaf fyddai hyn, ond o ystyried y posibilrwydd cryf fod gor-gyflenwad o dai eisoes yn yr ardal, ni ellir ei diystyru'n llwyr. Daethpwyd at y rhif hwn heb dybio unrhyw gynnydd poblogaeth o fewn y stoc dai bresennol; pe digwyddai hynny, gallai'r dirywiad fod yn fwy fyth. Fel y dengys y ffigurau uchod, mae pob cynnydd o 1% yn y boblogaeth yn arwain at ddirywiad o fwy nag 1% yn y ganran sy'n siarad Cymraeg.

Mae pob un o'r opsiynau uchod yn peri gwahanol raddau o rwystr i strategaeth y cyngor o godi'r ganran sy'n siarad Cymraeg yn Nwyfor i 76.3%.

O dan y scenario lleiaf dinistriol, sef Rhagamcan 1, byddai'n golygu bod angen sicrhau bod bron i 1,500 o bobl ddi-Gymraeg yn dysgu'r iaith yn rhugl. Mae'r niferoedd hyn yn codi gyda phob rhagamcan, ac yn achos Rhagamcan 5, byddai'n golygu dros 10,000 o drigolion di-Gymraeg, ac angen i o leiaf 3,500 ohonynt ddysgu'r iaith yn rhugl er mwyn cyrraedd targed y Cyngor. Gan fod y mwyafrif llethol o blant eisoes yn gallu siarad Cymraeg, byddai hyn golygu dysgu Cymraeg i oedolion. Byddai unrhyw un sy'n

gyfarwydd â maes dysgu Cymraeg i oedolion yn sylweddoli bod tasg o'r fath o fewn cyfnod o ychydig flynyddoedd yn gwbl anymarferol. Er mwyn cynnal a hyrwyddo'r Gymraeg yn ei chadarnleoedd mae'n hanfodol ystyried demograffeg yn ogystal.

## Casgliad

Ni ellir gorbwysleisio'r trychineb ieithyddol petai'r senario waethaf yn cael ei gwireddu yn yr achos hwn. Mae llawer iawn rhy ychydig o ardaloedd lle mae'r Gymraeg cyn gryfed ag yw yn Nwyfor i'r Gymraeg allu fforddio colled o'r fath. Un o negeseuon pwysicaf Cyfrifiad 2011 yw'r graddau y mae plant yn colli eu Cymraeg ar ôl gadael yr ysgol yn yr ardaloedd mwyaf Seisnig, sy'n dangos na ellir dibynnu ar addysg yn unig i greu siaradwyr Cymraeg newydd. Mae cynnal y math o gymdeithas sy'n dal i fod yng Ngwynedd yn gwbl allweddol.

O weld posibilrwydd y scenario waethaf, anodd osgoi'r casgliad bod y nifer o 1200 o dai ychwanegol yn ormodol – yn enwedig gan nad oes tystiolaeth ddigonol wedi ei chynnig o'r angen am gynnydd o'r fath.

Mae'r ystadegau diweddaraf a ddaeth o law'r Cyngor yn dangos fod prisiau tai allan o gyrraedd 67.8% o drigolion ardal Dwyfor. O ystyried fod mwy o bobl o'r tu allan yn gallu fforddio tai yma, mae hynny'n sicr o fod yn uwch fyth o fewn y boblogaeth gynhenid.

Mae dadl gref felly dros gyfyngu pob tŷ newydd a godir i rai fforddiadwy. Nid fyddai hyn ynddoi'i hun yn rhwystro mewnfudiad, wrth gwrs, ond o leiaf efallai na fyddai'n mynd ati'n fwriadol i'w annog.

Agwedd arall o'r cynllun sydd angen tynnu sylw ati yw dosbarthiad y tai. Gellir dadlau bod yma ormod o ganoli ar ardaloedd trefol, neu Bwllheli yn benodol. Un o nodweddion y newid ieithyddol yng Ngwynedd dros y degawd neu fwy ddiwethaf yw symudiad graddol o siaradwyr Cymraeg o gefn gwlad i'r trefi, fel bod y Gymraeg yn amlach yn gryfach yn y canolfannau trefol nag yn y pentrefi gwledig.

Nid dadl dros geisio rhwystro hyn yw dweud y gall gor-ddatblygu mewn trefi gael effeithiau negyddol ar y cefn gwlad o'u cwmpas. Os edrychwn yn benodol ar ardal Dwyfor, cafwyd cynnydd o tua 100 yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn nhref Pwllheli rhwng 2001 a 2011 (er bod cynnydd o tua 200 yn y boblogaeth gyffredinol wedi dod â'r ganran i lawr tua 2%). Rhaid gosod cynnydd o'r fath yn niferoedd siaradwyr Cymraeg o fewn cyd-destun ardal ehangach – yn ystod yr un cyfnod cafwyd lleihad o 127 yn Nefyn a Morfa Nefyn, lleihad o 105 yn Abersoch, 26 yn Efailnewydd a Buan, 27 yn Abererch a 17 yn Llanaelhaearn.

Un gwendid yn asesiad effaith ieithyddol a baratowyd gan uned y Cynllun Unedol yw ei fod yn tueddu i edrych ar dueddiadau o fewn wardiau unigol yn lle yng nghyd-destun ardal ehangach. Os oes cynnydd yn digwydd o fewn un lle, nid yw'n gynnydd ystyrlon os yw ar draul ardal arall.

Wrth gwrs, bydd angen edrych ymhellach na'r cynllun datblygu presennol wrth ystyried dyfodol y Gymraeg yng Ngwynedd. Os bydd dyhead cyffredinol yn parhau o fewn y boblogaeth gynhenid i symud tua'r trefi, mae angen trafodaeth aeddfed ar sut mae cynnal y Gymraeg yng nghefn gwlad. Efallai ei bod yn bryd meddwl am y syniadau mwy creadigol a chefnu ar y tabŵ traddodiadaol yn erbyn yr hyn a elwir yn 'dai haf'. Efallai fod lle i gadw mwy o'r tai hyn mewn dwylo lleol i'w defnyddio fel llety gwyliau; diau hefyd y byddai annog rhagor o'r boblogaeth gynhenid sydd wedi symud oddi yma i fyw i brynu eiddo yng nghefn gwlad i'w ddefnyddio ar benwythnosau a gwyliau yn hwb i Gymreictod yr ardal.

Mater arall sy'n gofyn am sylw yw'r diffiniad o bersonau lleol wrth ystyried cymhwysedd am dai fforddiadwy neu dai cymdeithasol. Mae holl ffigurau'r cyfrifiad yn awgrymu bod hyd at tua 95% o'r bobl a aned yng Nghymru sy'n byw yn ardal Dwyfor yn siarad Cymraeg. Os yw'r gallu i siarad Cymraeg yn sylweddol is ymhlith pobl sydd ar restr tai cymdeithasol, mae cwestiynau sylfaenol i'w gofyn ynghylch y meini prawf. Dylid ei gwneud hi'n ofynnol i gymdeithasau tai gofnodi'r gallu i siarad Cymraeg, a bod yr wybodaeth honno ar gael i'r cyhoedd.

Efallai y deuai i'r amlwg nad codi mwy o dai cymdeithasol o'r newydd sydd ei angen yn gymaint ond sicrhau mai pobl gwirioneddol leol sy'n cael y tai sydd ar gael.


O droi'n ôl at y cynllun datblygu lleol, fodd bynnag, mae'n anodd osgoi'r casgliad mai doeth fyddai lleihau nifer y tai ychwanegol sy'n cael eu cynnig, ac edrych eto ar ddosbarthiad nifer llai o dai. Gan ei bod mor anodd rhagamcanu'n union y tueddiadau i'w disgwyl o fewn y stoc dai bresennol, efallai na fyddai cyfiawnhad dros wahardd unrhyw godi tai newydd – er bod dadl gref dros gyfyngu'r rhain i dai fforddiadwy. Yn wyneb yr arwyddion bod yna gryn lacrwydd o fewn y stoc dai bresennol, fodd bynnag, anodd osgoi'r casgliad mai doethach fyddai gwneud y camgymeriad o godi rhy ychydig yn hytrach na gormod o dai.


Huw Prys Jones


Hanfod
Ymgynghoriaeth iaith a gwasanaethau golygyddol


- Elidir, Ffordd Berth Ddu, Llanrwst, Conwy LL26 0HG
- huw@hanfod.net
- 07770 941097

## Graffiau iaith a phoblogaeth Llŷn ac Eifionydd












Mae'n werth nodi bod y cyfrannau sy'n siarad Cymraeg yn y ddau graff yn anghyffredin o uchel o gymharu ag ardaloedd eraill. O ran y ganran o'r bobl a aned yng Nghymru sy'n


siarad Cymreg mae rhwng 92% a 95% ym mhob grwp oedran, sydd gyda'r uchaf yng Nghymru .


## Graffiau iaith a mannau geni yn ôl oedran










Y ganran o bobl ifanc 16-24 oed a aned yng Nghymru, 2011
Ganed y tu allan i Gymru 16%
Ganed yng Nghymru 84%



Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg pobl ifanc 16-24 oed, 2011
Deall Cymraeg llafar yn unig 4%
Di-Gymraeg 7%
Siarad Cymraeg 89%



Y ganran o oedolion 25-49 oed a aned yng Nghymru, 2011
Ganed y tu allan i Gymru 30%
Ganed yng Nghymru 70%


Y gallu i siarad Cymraeg neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion 25-49 oed, 2011
Di-Gymraeg 19%
Deall Cymraeg llafar yn unig 7%
Siarad Cymraeg 74%


Y ganran o oedolion 50-74 oed a aned yng Nghymru, 2011
Ganed y tu allan i Gymru 43%
Ganed yng Nghymru 57%



Y gallu i siarad neu ddeall Cymraeg ymysg oedolion 50-74 oed, 2011
Di-Gymraeg 34%
Siarad Cymraeg 59%
Deall Cymraeg llafar yn unig 7%


Y ganran o oedolion dros 75 oed a aned yng Nghymru, 2011
Ganed y tu allan i Gymru 41%
Ganed yng Nghymru 59%




Mae'n galonogol gweld y gyfran sy'n siarad Cymraeg yn uwch na'r gyfran a aned yng Nghymru, ond mae'n dangos cyfrannau uchel iawn o'r boblogaeth hŷn wedi symud i mewn i'r ardal.


# Cymhariaeth â 2001




| | Cyfanswm poblogaeth | Siaradwyr Cymraeg |
|---|---|---|
| 2001 | 25,626 | 18,796 |
| 2011 | 25,879 | 18,426 |

Hwn sy'n rhoi'r darlun cyffredinol o newid rhwng 2001 a 2011. Mae'r boblogaeth gyffredinol wedi cynyddu o 25,626 i 25,879, sef cynnydd o 253, tra bod y boblogaeth Gymraeg wedi gostwng o 18,796 i 18,426 sef gostyngiad o 370. Sy'n golygu bod y boblogaeth ddi-Gymraeg wedi cynyddu o 6,830 yn 2001 i 7,453 yn 2001 – cynnydd o 673.


Mae'r graff isod (fel sydd yn yr adroddiad gwreiddiol) yn dangos y newidiadau o fewn grwpiau oedran:





| | 3-15 oed | 16-24 oed | 25-49 oed | 50-74 oed | dros 75 oed |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm poblogaeth 2001 | 4,040 | 2,282 | 7,701 | 8,667 | 2,936 |
| Cyfanswm poblogaeth 2011 | 3,729 | 2,385 | 7,458 | 8,994 | 3,313 |
| Siaradwyr Cymraeg 2001 | 3,757 | 1,946 | 5,895 | 5,334 | 1,864 |
| Siaradwyr Cymraeg 2011 | 3,448 | 2,113 | 5,557 | 5,361 | 1,947 |

Mae'n dangos cynnydd o 327 yn y boblogaeth 50-74 oed rhwng 2001 a 2011 a chynnydd o 377 yn y boblogaeth dros 75 oed. O ystyried y ffigurau cyfatebol am siaradwyr Cymraeg, mae modd gweld mai pobl ddi-Gymraeg sy'n cyfrif am 300 o'r cynnydd ymysg pobl 50-74 oed, ac am 287 o'r cynnydd ymysg pobl dros 75. O gofio bod o leiaf 92% o'r bobl sydd wedi eu geni yng Nghymru'n siarad Cymraeg, mae'n amlwg mai pobl o'r tu allan ydi mwyafrif llethol y rhain. Cynnydd net o bron i 600 felly o bobl hŷn o'r tu allan i Gymru yn yr ardal o gymharu â 2001.

Mae'r graff olaf yn dangos y newid ymysg rhai a oedd yn blant 5-14 oed yn 2001 a phobl ifanc 16-24 oed yn 2011:




Er bod angen gwybodaeth am ardaloedd eraill er mwyn deall llawn arwyddocâd y ffigurau hyn, ond yn fras yr hyn maen nhw'n ei awgrymu ydi mai colli pobl ifanc ydi'r prif fygythiad yn hytrach na dirywiad ymysg eu gallu i siarad Cymraeg.
Dyma'r graff cyfatebol ar gyfer Cymru gyfan:



O edrych ar y ffigurau am Gymru gyfan, mae'r ffigurau am gyfansymiau poblogaeth y ddau grwp oedran tua'r un fath yn 2011 a 2001 ond niferoedd y rhai sy'n siarad Cymraeg wedi disgyn i tua'r hanner.

Yn Llyn ac Eifionydd ar y llaw arall, cafwyd gostyngiad o 737, neu 23%, yn y boblogaeth gyffredinol a gostyngiad o 868, neu 29% yn y plant neu bobl ifanc sy'n siarad Cymraeg. O weld bod 96% o'r bobl ifanc rhwng 16-24 oed a aned yng Nghymru'n siarad Cymraeg, mae'n ymddangos mai mewnfudo sy'n gyfrifol am y gwahaniaeth, yn hytrach na phlant yn colli eu Cymraeg.